

## Cyngor Cymuned Cerrigydrudion

### Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar yr 21ain Ionawr 2020

Presennol - Menai Hughes Cadeirydd, John D Jones, Prys Ellis, Cyng. Peter Lewis . Caerwyn Roberts Clerc.

Ymddiheuriadau , Ffion Williams, Ieuan Jones, Trystan Humphreys, Maria Roberts, Einion Edwards, Guto Jones,

Datgan diddordeb – Datganwyd diddordeb yng nghofnod [2] gan Prys Ellis. Penderfynwyd nad oedd y diddordeb yn rhagfarnu ar y mater dan sylw.

Cofnodion -Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar yr 19eg Dachwedd 2019.

Materion yn Codi

#### [1] Yr Heddlu

Nid oedd yr heddlu'n bresennol. Y clerch i gysylltu ynglŷn â'i bresenoldeb.

#### [1.1] Strategaeth Hiraethog / Fferm Wynt Brenig

Deallwyd bod amryw o geisiadau wedi ei gwneud ond nad oedd cais gan Ymddiriedolaeth Cerrig-y-Drudion.

#### [1.2]Coed Mynwent Ucha'r Eglwys/ Tocio'r Coed

Nodwyd bod y mater yn parhau

#### [1.3]Pont Pentrellyncymer

Deallwyd nad oedd y gwaith wedi ei wneud. Y clerch i gysylltu'n bellach gyda'r Sir.

#### [1.4] Arwydd Stryd King / Yr Ysgol

Dywedodd y clerch ei fod yn parhau i ddisgwyl ateb gan y Cyngor Sir.

#### [1.5] Swydd y Clerch

Deallwyd bod Mrs Carol Humphreys a diddordeb ac ei bod yn bwriadu dod i gyfarfod nesaf y Cyngor.

#### [1.6] Darren Millar AC

Gan nodi'r anhawster trefnu cyfarfod, y clerch i geisio ail drefnu dyddiad.

#### [1.7] Gwasanaethau Cynaliadwy

Penderfynwyd gohirio'r mater hyd at gyfarfod nesa'r Cyngor

[a] Cae Chwarae, Cae Llwyd

[b] Llyfrgell

[c] Toiledau

#### [1.8]Gosod Ffens ar gyfer y fynedfa i'r Ystafell Blwyf.

Y Cyngor Sir yn mynd i fesur y llwybr a chysylltu ymhellach ynglŷn â'r mater

#### [1.9]Project Conwy/ Llwybr Bach

Eglurodd y clerch nad oedd gair pellach wedi ei dderbyn ynglŷn a'r mater

Y brif Agenda

[2] Ceisiadau Cynllunio

Codi uned cynhyrchu wyau, seilos a gwaith cysylltiedig  
Tir ger trac y Tyrbin Gwynt LL21 OSE  
Penderfynwyd nad oedd gwrthwynebiad i'r cais uchod.

[2.1] Adolygiad o'r Gyllideb / Presept

[a] Cymeradwywyd adolygiad o'r gyllideb i ddiwedd Mawrth 2020

[b] Gan nodi'r arian wrth gefn penderfynwyd gosod presept o £6,000.00 ar gyfer y flwyddyn ariannol 2020/21

[2.2] Materion Ffyrdd

Y clerch i gysylltu gyda'r Cyngor Sir ynglŷn ar ddau fater canlynol

[a] Pant yn y ffordd gyferbyn a mynediad i Perthi Llwydion

[b] Ymholiad pa bryd mae'r sweeper yn debygol o ddod i lanhau'r llan

[2.3] Bins Gwair Mynwent yr Eglwys ar Fynwent Newydd

Y clerch i drefnu bins ar gyfer y ddwy fynwent.

[2.4] Cyfraniad

Penderfynwyd cyfrannu fel a ganlyn

[a] Ambiwlans Awyr Cymru £100.00

[b] Cwmni Drama Bara Caws £25.00

Cadeirydd \_\_\_\_\_